

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 39

Key language

Arian

Na ...na... na

Adjectives preceding nouns

New Words

Yn syth	straight away
Archfarchnad	supermarket
Anhygoel	unbelievable
Coelcerth	bonfire
Siomedig	disappointed
Ffrwydro	to explode
Golwg	sight
Hyll (NW)	ugly
Talcen	forehead
Arogl	smell
Plentyndod	childhood
Gor-yrru	to speed
Corff	a body
Cwt (SW)	tail
Dod o hyd i	to find
Petrusgar	uncertain
Diogel	safe
Conan (SW)	to complain
Anwybyddu	to ignore
O ddifri	serious
Tebygol	likely
Awydd	to desire
Gwahodd	to invite
Cynnig	an attempt
Tywylwch	darkness
Helynt	trouble
Ymysg	amongst
Yn derfynol	finally
Synnu	to be surprised
Manylion	details
Allwedd	key
Cydwytbod	conscience
Hala (SW)	to send
Heblaw	apart from
Anniben (SW)	untidy
Blêr	untidy
Casgliad	collection
Siop elusen	charity shop
Gwthio	to push
Gwasgu	to press
Perthyn	belonging to
Teimlo	to feel
Bysedd	fingers

Main Grammatical Points

Arian

Brian after filling Arwyn's car with petrol asked for:

Pedwar deg punt a saith deg pum ceiniog os gwelwch yn dda.

Firstly the ceiniog - pence element.

Ceiniog is feminine so the feminine forms dwy, tair, and pedair must be used:

ceiniog
dwy geiniog
tair ceiniog
pedair ceiniog

Note that the final p of pump is omitted before a noun so it's pum ceiniog or pum punt

Similarly the final ch is omitted from chwech in front of nouns and is followed by the aspirate mutation so it's chwe cheiniog and chwe phunt

Punt is also a feminine noun and therefore take the feminine forms of two three and four

Dwy bunt
Tair punt
and pedair punt
Cant is masculine so we say

Dau gant
Tri chant
Pedwar cant

We can add the word pounds either by adding the singular form punt or the plural form o bunnau

Note that with the singular form cant becomes can

Dau gan punt or dau gant o bunnau
Tri chan punt or tri chant o bunnau

After mil – a thousand – o bunnau is always used

mil o bunnau
dwy fil o bunnau
pum mil o bunnau

Na... na... na...

Agnes says - does dim tân gwyllt na choelcerth na bangers na dim i fod yn agos i ardd ty ni eleni.

In this sentence na is used three times to emphasise the negative form or or nor

Na is followed by the aspirate mutation

Na choelcerth or a bonfire

Gwir/hen/unig

Arwyn asks: Oes gwir ddiddordeb da chi?

Most adjectives in Welsh come after the noun for example bachgen mawr or merch hapus.

Gwir is one of the adjectives that can come before or after the noun

Gwir ddiddordeb means real – gwir ddiddordeb – real interest

After the noun it means correct ateb gwir – correct answer

Other examples are hen - before the noun hen ddyn – old man – dyn hen an elderly man
Unig ferch – only girl – merch unig – lonely girl.

Ysbyty Brynaber: Episode 115

Jenny Saunders meets up with Agnes. They discuss the accident that Brian suffered at the bonfire party twelve months ago.

Brian asks Arwyn Saunders not to mention to anyone the fact that he had visited the hospital.

Geirfa

Yn syth	straight away
Archfarchnad	supermarket
Anhygoel	unbelievable
Coelcerth	bonfire
Siomedig	disappointed
Ffrwydro	to explode
Golwg	sight
Hyll (NW)	ugly
Talcen	forehead
Arogl	smell
Plentyndod	childhood
Gor-yrru	to speed
Corff	a body

Golygfa 1

Jenny - Na. Dw i ddim yn mynd adref yn syth.

Agnes - Ble rwyf ti'n mynd 'te?

Jenny - I'r archfarchnad. Does dim bwyd yn y ty.

Agnes - Dw i'n trio siopa yn gynnar ar fore Sadwrn nawr...Edrycha ar liwie'r roced 'na...

Jenny - Anhygoel on'd ydy...?

Agnes - Ond does dim tân gwyllt na choelcerth na bangers na dim i fod yn agos i ardd ty ni eleni.

Ddwedais i 'Na' ar ei ben...

Jenny - Mae'n siwr fod Rhodri yn siomedig?

Agnes - Siomedig iawn. A Brian yn fwy siomedig byth! Ond ar ôl beth ddigwyddodd llynedd - doedd dim gobaith 'da nhw gael eu ffordd.

Jenny - Dw i ddim yn dy feio di.

Agnes - Ti'n cofio'r banger 'na yn ffrwydro yn wyneb Brian?

Jenny - Fuodd o'n lwcus na chollodd o mo'i olwg.

Agnes - Lwcus dros ben. Rôdd e'n 'second degree burn', ti'n gwbod. A 'blisters' hyll iawn tros 'i dalcen e am wythnosau...

Jenny - Mmmm.

Agnes - Gwynt tân...

Jenny - Ogla braf...

Agnes - Arogl sy'n mynd â ti nôl i dy blentyndod.

Jenny - Ydy...Ydy, mae o...Rwyf ti'n iawn... Anghofiais i ofyn: ond sut hwyl gafodd Brian yn Birmingham yr wythnos diwetha?

Agnes - Ddwedais i mo'r hanes wrthot ti?

Jenny - Pa hanes?

Agnes - Ar y ffordd gartre, gafodd y twpsyn ei ddal yn gor-yrru ar y draffordd...

Jenny - Gor-yrru ar y draffordd?

Agnes - Ie. Rôn i ar y ffôn 'da fe... Ac heb iddo fe sylwi, roedd e'n gwneud bron i naw deg milltir yr awr...

Jenny - A gafodd o ei ddal gan gamera?

Agnes - Gan blismon mewn car wrth ei gwt e. A beth sydd waetha: mae naw pwynt 'da fe ar ei drwydded yn barod.

Jenny - Mi fydd ganddo fo naw pwynt rwan.

Agnes - Bydd. Ac o hyn ymlaen ma'n rhaid iddo fe yrru yn ofalus iawn. Ar ôl deuddeg pwynt ti'n 'disqualified' on'd dwyt ti?

Jenny - Wyt...

Golygfa 2

Arwyn - Noswaith dda...

Brian - Sut mae?

Arwyn - Eitha da. A tithau?

Brian - Barod i fynd adref...

Arwyn - Diwrnod hir?

Brian - Rhy hir o'r hanner. Pa rif pwmp wyt ti?

Arwyn - Pwmp rhif tri...

Brian - Pedwar deg punt a saith deg pump ceiniog, os gweli di'n dda...Diolch...

Brian - Ti sy'n gwerthu cwch i lawr yn y Marina?

Arwyn - Ie. 'Daysailer' ddeugen troedfedd. Y Mary Rose. Pam? Oes diddordeb 'da ti yn ei brynu fe?

Brian - Mae'n dibynnu...

Arwyn - Chei di ddim gwell cwch.

Brian - Bargen am y pris?

Arwyn - Bargen a hanner. Er taw fi sy'n dweud! Os oes gwir ddiddordeb, da ti...Pam na ddoi draw i weld e rhywbryd...?

Brian - Ie. Efallai...

Arwyn - Dyna ti...Gad i fi roi fy rhif ffôn i ti...

Brian - Maddau imi am holi, Arwyn: ond hwn oedd y cwch...hynny ydy...beth ydw i'n trio'i ddeud ydy...

Arwyn - Ie. Ti'n iawn. Hwn oedd y cwch oedd mas yn y bae pan wnaeth Doctor Richard Allen foddi yn ôl ym mis Medi...

Brian - Rôn i'n amau. A ddaeth y corff byth i'r golwg?

Arwyn - Naddo. Ddaeth neb o hyd i'w gorff e.

Brian - Rhyfedd.

Arwyn - Ydy. Rhyfedd iawn...Ydy'r claf yn well?

Brian - Claf?

Arwyn - Ie. Y person ddest ti draw i'r ysbyty i weld y noswaith o'r blaen....

Brian - ...O, ie...Wrth gwrs...Ydy, lot gwell.

Arwyn - Welais i ti yn y coridor...

Brian - Siwr iawn. Dw i'n cofio rwan...Na, mae'r claf adref rwan...

Arwyn - Ac wedi gwella?

Brian - Yn llwyr.

Arwyn - Da iawn. Perthynas i ti oedd gyda ni?

Brian - Ia...Mewn ffordd o siarad.....

Arwyn - Ti'n swno'n betrusgar iawn...

Brian - Mi ydw i...A bod yn hollol onest: mi fasai yn well gen i taset ti ddim wedi fy ngweld i yn yr ysbyty o gwbl...

Arwyn - Beth wyt ti'n feddwl? Heb dy weld di?

Brian - Dôn i ddim i fod yno...A dw i ddim eisiau i neb wybod fy mod i wedi bod yno chwaith...Mae o'n fater braidd yn 'delicate'...

Arwyn - Personol, ie?

Brian - Personol iawn.

Arwyn - Paid ti â beco dim, Brian: ddweda i yr un gair wrth neb.

Brian - Diolch yn fawr, Arwyn.

Ysbyty Brynaber: Episode 116

Brian, Wendy and the children are at a public fireworks exhibition. The children are pretty bored by the whole occasion

Brian suggests to Agnes that he would like to buy Arwyn Saunders' boat. She is not at all taken by the idea.

Jenny tells Arwyn of Brian Rees' affair with Wendy Keating. The doctor is shocked at the news.

Geirfa

Diogel	safe
Conan (SW)	to complain
Anwybyddu	to ignore
O ddifri	serious
Tebygol	likely
Awydd	to desire
Gwahodd	to invite
Cynnig	an attempt
Tywyllwch	darkness
Helynt	trouble
Ymysg	amongst
Yn derfynol	finally

Golygfa 1

Agnes - Brian?
Brian - Ie, Agnes - beth sydd?
Agnes - Ble mae Beca?
Brian - Wrth fy ochr i fan hyn...Pam?
Agnes - Jyst ffaelw 'i gweld hi o'n i...
Brian - Mae hi'n hollol saff.
Agnes - Rydyn ni i gyd yn ddiogel eleni...
Rhodri - Mae hyn mor 'boring', Mam!
Agnes - Paid â dechrau cwyno nawr, Rhodri...
Rhodri - Mae e! Tân gwyllt Cyngor y Dre...
Agnes - Sa i eisiau i neb gael damwain...Chware teg nawr ond roedd hwnna'n werth 'i weld on'd oedd e?
Rhodri - Boring.
Agnes - Does dim plesio i fod heno oes e? Mae popeth yn 'boring'.
Brian - Anwybydda fo, Agnes. Wyt i'n cofio fi yn sôn am brynu cwch?
Agnes - Dwyt ti ddim o ddifri?
Brian - Wedi meddwl am y peth...Ydw...Dw i'n meddwl fy mod i.
Agnes - Smo ni eisiau cwch, Brei...
Brian - Agnes...
Agnes - Ble rydyn ni'n mynd i gadw peth fel hynny yn un peth?
Brian - I lawr yn y Marina siwr...
Agnes - A faint fydd e'n debygol o gostio inni?
Brian - Ddim cymaint â hynny....
Agnes - Faint yw 'ddim cymaint a hynny' yn gwmws...?
Brian - Does dim rhaid inni benderfynu rwan...
Agnes - Mae cwch yn beryglus...Jest cofia beth ddigwyddodd i Doctor Richard Allen...
Brian - Dyna'r cwch dw i awydd brynu.
Agnes - Cwch Arwyn Saunders?
Brian - Ie.
Agnes - O ddifri?
Brian - Ddaeth o i'r garej i gael petrol gyda'r nos neithiwr...A gawson ni sgwrs...Ac mae o wedi Fy ngwahodd i i fynd draw i weld y cwch...

Agnes - Sa i'n credu fod hyn yn syniad da.
Brian - Mi fasai Rhodri a Beca wrth eu bodd.
Agnes - Fyddden nhw ddim.
Brian - Ti ddim yn gwybod heb inni roi cynnig arni, wyt ti?

Golygfa 2

Arwyn - Pam rwyd ti'n sefyll yn y tywyllwch?
Jenny - Paid â rhoi'r golau ymlaen...
Arwyn - Pam? Beth wyt ti'n 'neud?
Jenny - Tyrd yma at y ffenest...
Arwyn - Sioe tân gwyllt Cyngor y Dre...
Jenny - Mae'r goelcerth yn goleuo yr Hen Gastell i gyd...
Arwyn - Mae'r cyfan yn edrych yn ddramatig iawn...
Jenny - Wyt ti'n cofio helynt adeg yma llynedd?
Arwyn - Ydw! Yn rhy glir o'r hanner!
Jenny - Agnes yn gorfod mynd â Brian draw i'r ysbyty...
Arwyn - A ti a fi yn fam ag yn dad i'w plant nhw...
Jenny - Ie
Arwyn - Beth oedd eu henwau nhw hefyd?
Jenny - Rhodri a Beca...
Arwyn - Dyna ti. Rhodri a Beca...
Jenny - Dw i'n siwr eu bod nhw ymysg y cannoedd sydd yn yr Hen Gastell heno...
Arwyn - Gwrddaii â'u tad nhw ddoe...
Jenny - Brian.
Arwyn - Ie. Yn ei orsaf betrol e. Ond rôn i wedi ei weld e'n yr ysbyty rhyw sbel fach yn ôl...
Jenny - Pan oedd Wendy Keating yno, siwr o fod.
Arwyn - Wendy Keating?
Jenny - Mae o wedi bod yn cael affêr hefo hi.
Arwyn - Brian Rees? Gyda Wendy Keating? Erioed?
Jenny - Do. Y fo ydy tad ei babi hi. Y babi roedd bron iddi golli...
Arwyn - Oh dear! Oh dear!
Jenny - Mae o'n wir bob gair.
Arwyn - Dw i'n amau dim. Ond ydy Agnes yn gwybod am hyn 'te?
Jenny - Ydy
Arwyn - Ac ydy hi'n...wel...yn hapus?
Jenny - Wrth gwrs nad ydy hi ddim yn hapus. Ond mae'r peth wedi digwydd. Ac mae Agnes yn meddwl fod Brian wedi gorffen hefo Wendy yn derfynol....
Arwyn - Ond dydy o ddim?
Jenny - Nag ydy. Wrth gwrs dydy o ddim...
Arwyn - Diar mi! Dw i'n hollol 'shocked'...

Ysbyty Brynaber: Episode 117

Agnes tells Brian that she has been asked by Jenny Saunders to go to Dic Allen's flat because she fears that she's left some items there.

Brian swears to Agnes that he has finally broken off his relationships with Wendy Keating.

At Dic Allen's flat there is a blood chilling revelation!

Geirfa

Synnu	to be surprised
Manylion	details
Allwedd	key
Cydwybod	conscience
Hala (SW)	to send
Heblaw	apart from
Anniben (SW)	untidy
Blêr	untidy
Casgliad	collection
Siop elusen	charity shop
Gwthio	to push
Gwasgu	to press
Perthyn	belonging to
Teimlo	to feel
Bysedd	fingers

Golygfa 1

Agnes - Rhodri? Beca? Dewch! Codwch nawr! Sa i eisiau galw arnoch chi eto!

Brian - Mae'r plant yn ddi-symud iawn bora 'ma.

Agnes - Wel, wyt ti'n synnu?

Brian - Doedden nhw ddim ar eu traed mor hwyr â hynny neithiwr...Faint o'r gloch ddaethon ni adref o Noson Tân Gwyllt?

Agnes - Roedd hi bron yn hanner nos.

Brian - Oedd hi?

Agnes - Oedd.

Brian - Mor hwyr â hynny? Rôn i'n meddwl ein bod ni nôl yma erbyn tua un ar ddeg...

Agnes - Ble maen nhw? Dw i eisiau bod yn y gwaith yn gynnar bore 'ma...

Brian - Pam? Beth sy'?

Agnes - Mae cant a mil o bethau gyda fi i wneud.

Brian - Fel beth?

Agnes - Wna i ddim diflasu ti â'r manylion i gyd.

Brian - Ond fod gen ti fora llawn o waith?

Agnes - Rhy llawn o'r hanner. Ac amser cino, dw i wedi addo mynd draw 'da Jenny i fflat Doctor Richard Allen...

Brian - Fflat Richard Allen? Pam?

Agnes - Mae allwedd 'da Jenny.

Brian - Allwedd?

Agnes - Mae Jenny yn beco ei bod hi wedi gadel ambell beth ar ôl...

Brian - Roedd Jenny yn cael hanci-panci hefo Doctor Richard Allen, oedd hi?

Agnes - Oedd...

Brian - Wel, wel.....

Agnes - Rhodri? Beca? Am y tro ola un: dewch i lawr llawr nawr! Ydych chi'n fy nghlywed i?

Brian - Pam mae Jenny Saunders eisiau i ti fynd hefo hi?

Agnes - I fod yn gefn iddi.

Brian - Oes 'na wasaneth coffa wedi'i drefnu iddo fo wythnos nesa o hyd?

Agnes - Oes...Cydwybod sydd wedi hala Jenny draw i'r fflat ...

Brian - Dw i'n gallu gweld hynny.

Agnes – Dw i'n siwr dy fod ti, Brian. A tithau wedi bod yn yr un sefyllfa yn gwmws dy hunan 'da'r ferch Keating 'na.

Brian - Ond mae bob dim drosodd rhwng Wendy a fi.

Agnes - Ar dy lw?

Brian - Ar fy llw.

Agnes - Ar fedd dy fam?

Brian - Ar fedd Mam.

Golygfa 2

Jenny - Dyma ni.

Agnes - Ie. Dyma ni... Ac heblaw am ychydig bach o lwch, smo hi'n rhy anniben yma ydy hi?

Jenny - Na. Doedd Richard ddim yn ddyn blêr iawn...

Agnes - Yn wahanol i Brian 'te...

Jenny - A dweud y gwir, roedd o wastad yn daclus hefo bob dim...Dillad, bwyd...Roedd pob dim yn cael ei roi i'w gadw yn ôl yn ei le...

Agnes - Edrych ar casgliad CD's 'ma...

Jenny - Roedd o'n licio'i fiwsig...

Agnes - Mae hynny'n weddol amlwg, ddweden i... Sut siâp sydd ar y gegin?

Jenny - Fel pin mewn papur...

Agnes - Fydd rhaid i rhywun bacio'r holl lyfrau yma.

Jenny - Neu eu rhoi nhw i rhyw siop elusen.

Agnes - Mae e lan i'w deulu fe...

Jenny - Ydy...

Agnes – Dw i'n ei gofio fe'n sôn am chwaer...Ble mae hi'n byw?

Jenny - Abertawe. Mae'n siwr y daw hi i'r gwasanaeth coffa.....

Agnes - Richard, druan. I feddwl ei fod e wedi mynd...

Jenny - Wedi boddi. Ac onibai am Arwyn, mi fasai o yn fyw heddiw...

Agnes – Wyt i'n siwr taw ddim damwain oedd hi?

Jenny - Ddim damwain oedd hi o gwbl!

Agnes - Ti sy'n meddwl y gwaetha...

Jenny - Agnes: rôn i yno. Rôn i ar y cwch. Mi wnes i weld be wnaeth ddigwydd. Roedd Arwyn yn gwrthio pen Richard i lawr o dan y dwr...

Jenny - Ond o'r ffordd rwyd ti'n edrych arna i rwan, mae hi'n amlwg dy fod ti ddim yn fy nghoelio fi o hyd...

Agnes – Dw i'n ei chael hi'n anodd dy gredu di, mae'n rhaid i fi gyfadde...

Jenny – Petai yna gorff, dw i'n siwr y basai post-mortem yn dangos yn glir iddo fo gael ei wasgu i lawr...Ta waeth...

Agnes – Wyt ti wedi cwpla 'ma?

Jenny - Gad inni fynd i'r llofft...

Agnes - Mae'r bleinds ar gau.

Jenny - Felly roedd o'n licio nhw.

Agnes - Ti'n gweld rhywbeth sy'n perthyn i ti?

Jenny - Na.

Agnes – Wyt ti eisiau edrych yn y droriau 'ma?

Jenny - Gad imi edrych yn y wardrob - rhag ofn...

Agnes - Jen?

Jenny - Beth?

Agnes - Teimla'r gwely yma...

Jenny - Beth amdano fo?

Agnes - Rho dy fyseidd fan hyn...Jyst teimla fe...Mae e'n dwym...

Jenny - Ydy o?

Agnes - Ydy. Yn gwmws fel petai rhywun newydd fod yn cysgu ynddo fe...

Synopsis

Jenny and Agnes went to Dic's flat. They went into the bedroom and they found, to their amazement that the bed was warm, as if someone had just slept in it.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'two pounds and six pence'?
 - a) dwy bunt a chwech ceiniog
 - b) dwy punt a chwe cheiniog
 - c) **dwy bunt a chwe cheiniog**
2. What's the Welsh for 'two thousand pounds'?
 - a) Dwy fil o geiniogau
 - b) Dwy fil punt
 - c) **Dwy fil o bunnoedd**
3. How would you translate 'real interest' into Welsh?
 - a) diddordeb gwir
 - b) **gwir ddiddordeb**
 - c) diddordeb iawn
4. What's the word in south Wales for 'to moan'?
 - a) Monan
 - b) **Conan**
 - c) Conio
5. How would you say 'I've found the book' in Welsh?
 - a) Dw i'n chwilio am y llyfr
 - b) Dw i wedi colli'r llyfr
 - c) **Dw i wedi dod o hyd i'r llyfr**
6. What's the word in Welsh for conscience?
 - a) **Cydwybod**
 - b) Cyfarfod
 - c) Cyfateb